COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 6 MAWRTH 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | E L P Caparros | C Davies | C L C Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | P Ford | J Gebbie |
| RM Granville | M R John | L Lewis | R J Smith |
| I M Spiller | JH Tildesley MBE | MJ Williams | E D Winstanley |
| T Wood | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Guy Smith | Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol |
| Sue Whittaker | Skills and Sustainable Development Manager |

11. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd R Smith ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 5 ar yr Agenda, am ei fod yn Gyfarwyddwr cwmni oedd yn derbyn grant Canolfan Gynnes.

Fe wnaeth y Cynghorydd H Bennett ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 5 ar yr Agenda, fel cyflogwr corff oedd yn gweinyddu'r grantiau.

Fe wnaeth y Cynghorydd E Winstanley ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 5 ar yr Agenda, fel cyflogwr corff oedd yn gweinyddu'r grantiau.

Fe wnaeth y Cynghorydd S Parker ddatgan buddiant personol yn eitem 5 ar yr Agenda, gan fod ei wraig yn Aelod o Ganolfan Gynnes Corneli sydd hefyd wedi derbyn grant.

12. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD:: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned dyddiedig 21 Tachwedd 2022, fel cofnod gwir a chywir.

13. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-28

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus adroddiad, er mwyn rhoi diweddariad ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a cheisio cefnogaeth gan Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned i rannu Cynllun Corfforaethol 2023-28, a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd hwn i fod i gael ei adrodd i'r Cyngor yn ddiweddarach y mis hwn.

Cadarnhaodd fod 7 nod llesiant ar gyfer Cymru, wedi eu nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a bod angen i'r Cyngor, fel awdurdodau lleol eraill, ddangos ein cyfraniad at bob un o'r nodau hyn, sef –

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ychwanegodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus fod yn rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried y 5 ffordd o weithio wrth iddo ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd. Y rhain oedd –

- Hirdymor - cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ateb anghenion hirdymor hefyd
- Atal - gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion
- Integreiddio – meddwl am sut y bydd ei nodau llesiant yn cyfrannu at y 7 nod genedlaethol, at ei amcanion eraill ac at amcanion partneriaid.
- Cydweithio – gweithio ar draws gwahanol rannau o'r Cyngor a phartneriaid i gyflawni ei amcanion
- Cynnwys – cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth ei ardal.

Y Cynllun Corfforaethol yw prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer dangos a chyfleu'r blaenoriaethau i bobl a busnesau lleol. Roedd hefyd yn rhan bwysig o'r fframwaith sicrwydd ar gyfer ei reoleiddwyr. Roedd Archwilio Cymru yn bwriadu rhoi prawf ar ddulliau o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol (yn enwedig yr amcanion llesiant) ledled Cymru dros y 6 mis nesaf. Amlinellwyd yr Amcanion hyn ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad.

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd diddordeb mawr yn natblygiad amcanion llesiant, yn unol ag esblygiad y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a'r canllawiau. Maent yn awyddus i weld tystiolaeth fod y Cyngor yn gweithio gyda staff ac Undebau Llafur ar ddatblygu ei amcanion a'i gynllun llesiant.

Yna amlinellodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus rywfaint o'r gwaith oedd wedi cael ei wneud neu oedd yn ofynnol, megis mewn perthynas â:

- Defnyddio ymchwil, data a gwybodaeth i gasglu manylion ar gyfer y Cynllun Corfforaethol;
- Defnyddio ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori i gasglu'r wybodaeth ar gyfer y Cynllun Corfforaethol.

Eglurwyd rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed yn y meysydd hyn yn yr adroddiad, gan gynnwys adborth gyda golwg ar ymgynghori'n fewnol, er enghraifft drwy'r broses Trosolwg a Chraffu, ac yn allanol gyda rhanddeiliaid, megis etholwyr, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyngor Ieuenctid.

Yn dilyn y broses ymgynghori, gwnaed rhai newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd, megis:

- Ailysgrifennu'r egwyddorion, a newid yr eiconau sy'n eu cynrychioli, fel eu bod yn fwy cadarnhaol, uchelgeisiol a blaengar.
- Ychwanegu adran fach ar gyd-destun i bob amcan llesiant i ddangos y cysylltiad â gwasanaethau penodol yn y cyngor
- Ailgyflunio’r diagram ar gyllid y Cyngor i adlewyrchu’r costau fesul diwrnod (fesul cartref)
- Ychwanegu cyfeiriadau at ganol trefi a Phorthcawl
- Ychwanegu gwybodaeth yn Amcan Llesiant 2 i ganolbwyntio ar les, recriwtio a chyflogau staff.
- Ychwanegu gwybodaeth yn Amcan Llesiant 6 i ganolbwyntio ar wrando ar farn trigolion ac ymateb iddi
- Ychwanegu gwybodaeth am gyflogaeth ieuenctid, a'r gwasanaeth cerdd.

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus i gefnogi'r adroddiad.

Gofynnodd aelodau'r Fforwm yn ddiolchgar am i'r Cynllun Corfforaethol gael ei rannu gyda Chynghorau Tref a Chymuned a chadarnhaodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus y byddai'n trefnu hyn ac, os oedd angen, y gallai naill ai ei hun neu aelodau o'i thîm ddod draw i siarad ar hyn er budd yr Aelodau.

Teimlai Aelod hefyd y byddai'n fanteisiol defnyddio'r Cynllun Corfforaethol fel cyfle i ganiatáu, lle'n briodol, i Gynghorau Tref a Chymuned ddarparu rhai o'r gwasanaethau oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun, trwy drefniadau gweithio ar y cyd.

PENDERFYNWYD: Bod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi Cynllun Corfforaethol 2023-28 a gyflwynwyd i'w gymeradwyo i'r Cyngor ar 1 Mawrth fel oedd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.

14. COSTAU BYW / CANOLFANNAU CYNNES

Cyflwynodd Cydlynydd Costau Byw (Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr) adroddiad, a’i ddiben oedd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned am y gweithgarwch ynghylch cymorth costau byw, a Chanolfannau Cynnes yn fwyaf penodol, oedd yn cael eu darparu i gymunedau ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Fel rhywfaint o wybodaeth gefndir, dywedodd fod effaith y cynnydd mewn costau byw yn effeithio ar bawb ond bod yna grwpiau oedd yn debygol o gael eu taro galetaf. Roedd y bobl hyn yn gwario cyfran uwch o gyfanswm eu hincwm ar fwyd, tai a chostau ynni ac felly bod ganddynt lai o hyblygrwydd i gwrdd â chostau oedd yn cynyddu. Roedd y rhai oedd yn arfer gallu rheoli eu cyllidebau bellach yn dechrau cael trafferth neu'n cael eu hunain mewn argyfwng.

Roedd problemau gyda stoc tai hŷn yn golygu bod llawer o gartrefi yn llai ynni-effeithlon. Mewn ardaloedd gwledig roedd cartrefi yn fwy tebygol o fod yn ddibynnol ar danwydd solet, olew, neu LPG ar gyfer eu gwresogi. Roedd y rhain i gyd yn ffactorau oedd yn cynyddu costau ynni.

Cadarnhaodd y Cydgysylltydd Costau Byw fod y cap ar brisiau ynni domestig wedi codi i £1,971 y flwyddyn ym mis Ebrill 2022, gan arwain Llywodraeth Cymru i amcangyfrif y gallai hyd at 45% o aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd ac y gallai hyd at 8% o aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd difrifol. Gan fod 1 o bob 5 cartref yng Nghymru yn peri risg annerbyniol i iechyd cyn yr argyfwng costau byw, roedd y cynnydd yn yr

aelwydydd yr oedd tlodi tanwydd wedi effeithio arnynt yn debygol o gynyddu marwolaethau ychwanegol y gaeaf yn gyffredinol.

Ym mis Medi 2022, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw cynyddol, costau uwch ynni yn benodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai miliwn o bunnau ar gael i gynorthwyo cymunedau i ddatblygu Canolfannau Cynnes neu ehangu a gwella darpariaeth Canolfan Gynnes.

Yna ym mis Hydref 2022, cyhoeddwyd y câi'r cyllid ei ddosbarthu drwy awdurdodau lleol fyddai'n gweithio gyda phartneriaid lleol i ddatblygu a darparu Canolfannau Cynnes. Dyrannwyd £44,590 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynorthwyo Canolfannau Cynnes drwy gynllun grant i'w wario erbyn 31 Mawrth 2023.

Eglurodd fod Canolfannau Cynnes wedi eu bwriadu fel lleoedd mewn cymunedau lleol lle gallai pobl ddod o hyd i amgylchedd diogel a chynnes yn ystod y dydd i gynorthwyo i leihau cost gwresogi eu cartrefi eu hunain ac i helpu pobl oedd yn wynebu tlodi tanwydd eithafol y gaeaf hwn. Yn dibynnu ar eu lleoliad a'u cyfleusterau, roedd Canolfannau Cynnes yn cynnig amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys lluniaeth a byrbrydau sylfaenol o leiaf, ac ymestyn i bryd o fwyd mwy sylweddol lle bo modd, gweithgareddau cyfoethogi fel celf a chrefft, ymarfer corff a gweithgaredd diwylliannol a darparu cyngor a gwasanaethau cymorth fel iechyd a lles, materion ariannol, a hygyrchedd digidol i'r rhai oedd yn mynychu.

Nod cronfa'r Canolfannau Cynnes oedd darparu mannau diogel, hygyrch, cyfeillgar, rhad ac am ddim i gynnig cymorth gyda chostau byw cynyddol tra'n helpu cymunedau i fod yn iach ac aros felly.

Er mwyn hwyluso'r broses o ddyrannu'r cyllid grant, cynhaliwyd ymarfer cwmpasu ar draws y Fwrdeistref Sirol. I adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau lleol ar draws y Fwrdeistref Sirol a chynorthwyo i fynd i'r afael â'r heriau unigryw mewn gwahanol ardaloedd, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol. Trefnwyd 11 o gyfarfodydd, ac ymdrechwyd i wahodd cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, canolfannau cymunedol, Cynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a sefydliadau Trydydd Sector gan gynnwys Halo ac Awen.

Pwrpas y cyfarfodydd cwmpasu oedd trafod atebion cymunedol i gostau cynyddol ynni domestig, gan nodi a chasglu gwybodaeth am y cymorth a'r gweithgareddau oedd eisoes ar gael er mwyn osgoi dyblygu yn y dyfodol a chreu sefyllfa i adeiladu arni. Yn dilyn y cyfarfodydd, crëwyd rhestrau cylchredeg ar gyfer pob ardal i gynorthwyo gyda chyfathrebu yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr lleol a rhyngddynt. Roedd y grwpiau postio wedi bod yn ffordd effeithiol o gasglu gwybodaeth bellach a rhannu gwybodaeth leol a gwybodaeth ddiweddar am Ganolfannau Cynnes.

Dywedodd y Cydgysylltydd Costau Byw fod cyllid yn cael ei dynnu i lawr oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod cytundeb wedi ei wneud wedi hynny â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) ym mis Ionawr 2023 i weinyddu'r arian. Roedd rôl BAVO yn ymestyn i hysbysebu cynllun ariannu Canolfannau Cynnes a choladu ceisiadau, gyda CBS Pen-y-bont yn gyfrifol am wneud penderfyniadau drwy Banel Grantiau, a monitro ac adrodd i CLlLC.

Roedd Panel Grantiau CBSP yn cynnwys y Rheolwr Cyflogadwyedd a Menter, Rheolwr Grŵp – Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol ar gyfer Atal a Lles a Chydlynydd Costau Byw. Llwyddodd y Panel Grantiau i gytuno ar geisiadau'n gyflym, gan gyfarfod ddwywaith yr wythnos ers agor y gronfa grant. Roedd ceisiadau i'r gronfa bellach wedi mynd y tu hwnt i'r cyllid oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac roedd dros 30 o

dderbynwyr wedi derbyn cyllid Canolfannau Cynnes. Roedd arian ychwanegol i gael ei ddarparu drwy Gronfeydd Cost Byw yn ôl Disgresiwn CBSP.

Wedyn, ymatebodd swyddogion Cyflogadwyedd i gwestiynau gan Aelodau a gellir dod o hyd i fanylion pellach am hyn yma

PENDERFYNWYD:: Bod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r adroddiad.

15. EITEMAU BRYS

Dim.